



YSGOL GYMRAEG PONTARDAWE
CYLCHLYTHYR MAI 14^{eg} / MAY 14th NEWSLETTER

www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe
yggpontardawe@npt.school
<https://twitter.com/YGGPontardawe>

Annwyl rieni a gofalwyr / *Dear Parents and Carers*

Ar hyn o bryd, mae cyfyngiadau a threfniadau diogelu mewn ysgolion yn sgil Covid-19 i barhau. Byddwn felly yn parhau gyda'r un trefniadau sydd gennym ar hyn o bryd. Eto, diolch o galon i chi am eich cydweithrediad. Os allwn eich atgoffa'n garedig i **beidio** cyrraedd y maes parcio cyn yr amseroedd gollwng a chasglu (er mwyn osgoi tagfeydd o gwmpas y maes parcio), parhau i wisgo mwgwd wrth ollwng a chasglu disgyblion a pharhau i gynnal pellter cymdeithasol o 2m. Gobeithiwn y dychwel normalrwydd yn fuan. Diolch o galon.

*At the time of writing, restrictions and safeguarding arrangements in schools due to Covid-19 are continuing. We will maintain the same arrangements as currently in place. Again, many thanks for your co-operation. A quick reminder, please **do not** arrive before the drop off and collection times (as this creates congestion in and around the car park), continue to wear a face mask when dropping off and collecting pupils and maintain social distancing of 2m at all times. We hope that soon we will return to normality. Thank you.*

Nosweithiau Rhieni / Parents Evenings

Mae nosweithiau rhieni wedi'u cynllunio ar gyfer nos Lun 17^{eg}, nos Fawrth 18^{ed}, nos Lun 24^{ain} a nos Fawrth 25^{ain} o Fai (3:30yp i 5:30yp). Yn anffodus, nid yw'n canllawiau ar hyn o bryd yn caniatáu i ni eu cynnal wyneb yn wyneb yn yr ysgol a byddant yn debyg iawn i'r rhai cyn y Nadolig. Os nad ydych chi wedi derbyn slip yn nodi dyddiad ac amser galwad ffôn gan athro eich plentyn, e-bostiwch y swyddfa ac fe atebwn gyda chadarnhad mor gyflym ac y gallwn. Cofiwch, er tegwch i bawb ac i gadw at yr amserlen, mai **10 munud ar y mwyaf** fydd y galwadau a gall y galwadau ymddangos fel rhif preifat.

*Parents' evenings have been planned for Monday 17th, Tuesday 18th, Monday 24th and Tuesday 25th May (3:30 pm to 5:30pm). Unfortunately, guidance does not currently allow us to conduct them face to face in school. They will be very similar to those prior to Christmas. If you have not received a slip stating the date and time of a phone call from your child's teacher, please email the school and we'll reply with confirmation of the time as soon as we can. Please remember, in fairness to all and to maintain the timetable, calls will be a **maximum of 10 minutes** and calls may appear as a private number.*

HMS a Gwyliau / INSET and Holiday Dates

Mae diwrnodau HMS gweddill y flwyddyn academiaidd isod. Cofiwch fod y wybodaeth yma a gwyliau ysgol hefyd ar gael ar wefan CNPT (<https://www.npt.gov.uk/1928?lang=cy-gb>). Gobeithiwn y bydd y rheoliadau'n cael eu llacio yn fuan i'n galluogi i drefnu rhai ymweliadau addysgol cyn diwedd y tymor. Ni fyddwn yn cynnal unrhyw ymweliadau preswyl y tymor yma.

INSET days for the remainder of this academic year are listed below. Remember that term dates and INSET information is also available on the NPT website (<https://www.npt.gov.uk/1928>). We are hoping that regulations will soon be relaxed allowing us to arrange educational visits this term. We will not be arranging any residential visits this term.

Dydd Gwener, Mai 28^{ain} / *Friday, May 28th*
Dydd Gwener, Mehefin 25^{ain} / *Friday, June 25th*
Dydd Gwener, Gorffennaf 16^{eg} 2021 / *Friday, July 16th 2021*

CRAF / PTFA

I barhau i godi arian ar gyfer yr ysgol, mae'r CRAF wedi trefnu loteri. Mae linc isod gyda gwobrau'n cael eu tynnu bob mis. Pob lwc.

To continue to raise money for the school, the PTFA has organised a lottery. A link is provided below with draws scheduled every month. Good luck.

<https://www.yourschoollottery.co.uk/lottery/school/ysgol-gynradd-gymraeg-pontardawe>

www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe
yggpontardawe@npt.school
<https://twitter.com/YGGPontardawe>

Clwb Brecwast / Breakfast Club

Gobeithiwn allu ail gyhwyn y clwb brecwast wedi hanner tymor. Serch hynny, ni fyddwn yn gallu cynnig yr union yr un ddarpariaeth a chyn y pandemig. Hysbyswn chwi o'r trefniadau cyn y Sulgwyn.

We hope to be in a position to open breakfast club after half term. We will let you know as soon as we can prior to Whitsun.

Clybiau ôl ysgol / After school clubs

Yn yr un modd, gobeithiwn fod mewn sefyllfa ble allwn gynnig clybiau ôl ysgol eto wedi'r Sulgwyn. Fe gadarnhawn mor gynted ag y gallwn.

Again, we hope to recommence after school clubs after Whitsun. We will advise as soon as we can.

Chwaraeon yr Urdd dros y Sulgwyn / Urdd Sports over Whitsun

Yn dilyn llwyddiant Gwersyll Aml-Chwaraeon yn ystod Pasg rydym yn falch i gyhoeddi ein bod yn dychwelyd - ymunwch gyda'n tîm o staff profiadol yn ystod hanner tymor Sulgwyn am lu o weithgareddau amrywiol.

Niferoedd cyfyngedig, cyntaf i'r felin

Gweithgaredd – **Tennis**

Pryd – **03 – 04/06 | 10:00 – 14:00**

Ble – **Cyrtiau Tennis Castell Nedd**

Oedran – **6 – 11 mlwydd oed**

Pris - **£13 y diwrnod**

I gofrestru lle i'ch plentyn dilynwch y linc [YMA](#)

Edrychwn ymlaen at groesawu chi nol i'n gwersylloedd chwaraeon, ac os oes gennych unrhyw adborth wrth gofrestru, plis cwblhewch yr holiadur byr [YMA](#)

Mae Gwersylloedd Chwaraeon yr Urdd yn amodol i newid yn ôl cyfarwyddyd COVID-19 Llywodraeth Cymru ar Gyrrff Cenedlaethol Chwaraeon

Emyr Davies
Swyddog Cymunedol Chwaraeon Gorllewin Cymru
emyrdavies@urdd.org

07500 033957.

Mae'r Urdd hefyd wedi trefnu diwrnod o weithgaredd awyr agored ar gyfer hanner tymor y Sulgwyn ar draeth Oxwich i blant Blwyddyn 3 i 6. Defnyddiwch y linc yma i gofrestru: <https://bit.ly/2SO5Tpd>

Following the recent success of our Easter Multi-Sports Camps I am pleased to announce we will be returning - join our experienced staff during the Whitsun holidays for a variety of exciting and engaging activities!

****Limited numbers, first come!****

Activity - Tennis

When – 03 – 04/06 | 10:00 – 14:00

Where – Neath Tennis Courts

Age – 6 – 11 years old

Price - £13 per day

To register a place for your child click [HERE](#)

We look forward to welcoming you to our sports camps once again, and if you have any feedback regarding the registration process, please complete the short survey [HERE](#)

Urdd Sports Camps are subject to change in line with Welsh Government and National Governing Body guidance

*Emyr Davies
West Wales Sports Community Officer
emyrdavies@urdd.org*

07500 033957

The Urdd has also organised an outdoor activity day for Whitsun half term on Oxwich beach for Year 3 to 6 pupils. Use this link to register: <https://bit.ly/2SO5Tpd>

ANTUR FACH MINI ADVENTURE

Gweithgareddau anturus yn y Gymraeg i blant Ysgol Gynradd
Adventurous activities in Welsh for Primary School pupils

Dewch i ddyegu sgiliau antur a chymryd rhan
mewn gweithgareddau ar y traeth!
Come and learn some adventure skills and join
in our activities on the beach!

Tostio malws melus Toast marshmallows	Adeiladu den Den building
Gemau traeth Beach games	

Blwyddyn 3-6
Mehefin 2il 10-2yp
Traeth Oxwich
Cwrdd yn y
maes parcio
P
Angen dod:
Cinio a diod
Eli haul a het
Tywel

Years 3-6
June 2nd 10-2pm
Oxwich Beach
Meet in the
car park P
Please bring:
Lunch and a drink
Sun cream and hat
Towel

Gorllewin
Morgannwg
£10

Cofrestrwch ar: <https://bit.ly/2JOS7pd>
Register on: <https://bit.ly/2JOS7pd>

Castell-nedd Port Talbot Neath Port Talbot

Chwaraeon

GWERSYLL TENIS/RACEDI GWYLIUW SULGWYN Whitsun Half Term Tennis/Rackets Camp

AGORED I BAWB
Cofrestru yn hanfodol

OPEN TO ALL
Registration is essential

Cyrtiau Tennis Castell Nedd Neath Tennis Courts

DYDDIAD:	03/06 - 04/06	:DATE
AMSER:	10:00 - 14:00	:TIME
OEDRAN:	6 - 11	:AGE

COST: £13 y diwrnod
per day

Cofrestrwch ar-lein | Register online
→ C: www.urdd.cymru/GwersyllChwaraeon
→ E: www.urdd.cymru/en/SportsCamps

Am fwy o wybodaeth | For more information
emyrdavies@urdd.org | catrina@urdd.org
07500 033957

*Nifer lleiafwm o gyfranogwyr yn ofynnol |
Minimum participants required **

*Niferoedd cyfyngedig, cyntaf i'w felin |
Limited numbers, first come

*Yn amodol ar ganllawiau COVID-19 |
Subject to COVID-19 guidelines

Mabolgampau Ysgol / School Sports

Os yw'r tywydd yn garedig byddwn yn cynnal ein mabolgampau yn ystod yr wythnos cyn hanner tymor y Sulgwyn. Eleni, bydd ein mabolgampau ychydig yn wahanol ac yn anffodus, ni allwn wahodd rhieni fel yn y blynyddoedd blaenorol. Bydd y mabolgampau yn cael ei gynnal ar sail dosbarth a bydd yn cynnwys sesiwn ymarfer a sesiwn gystadlu. Mewn e-bost ar wahân byddwch yn derbyn manylion pa ddiwrnodau bydd angen dillad chwaraeon a'u hatgoffa o'u llysoedd a'u lliwiau. Byddwn yn trydar gymaint o luniau o'r dydd ag y gallwn. *If the weather is kind, will be holding our schools sports during the week prior to the Whitsun half term. Sports day will be a little different this year and unfortunately, we cannot invite parents as in previous years. It will be held on a class basis and will consist of a practice session and a competition session. In a separate email you will receive details of when pupils need to bring sports clothing to school and a reminder what teams they belong to and their colours. We will tweet as many photos of the days as we can.*

Grŵp ail gysylltu / Re-connect Group

Ar hyn o bryd mae'r Tîm Plant a Theuluoedd yn cynnal rhaglen o gyrsiau ar-lein i gefnogi rhieni. Mae'r Grŵp Ailgysylltu yn cychwyn ddydd Iau'r 20^{fed} o Fai ar Microsoft Teams 10-11.30yb. Mae'r grŵp hwn yn cynnig cyfres o offer a thechnegau i gefnogi rhieni a gofalwyr plant / bobl ifanc sy'n dangos agweddau ac ymddygiadau heriol. Wrth i rieni fagu mwy o hyder a hunanreolaeth, mae hyn yn eu galluogi mynd i'r afael â materion anodd mewn modd effeithiol trwy broses o gynyddu presenoldeb rhieni. Cysylltwch â Fran ar 01639 873004 i drefnu lle neu i ddarganfod mwy am y grŵp newydd cyffrous hwn. *The Children and Families Team is currently running a programme of online courses to support parents. The Reconnect Group is starting Thursday 20th May on Microsoft Teams 10-11.30am. This group offers a series of tools and techniques to support parents and carers of children/young people who display challenging attitudes and behaviours. As parents gain greater confidence and self-control, this enables difficult issues to be addressed in an effective manner through a process of increasing parental presence. Contact Fran on 01639 873004 to book a place or find out more about this exciting new group.*

Prosiect yr Enfys / Rainbow Project

Mae Prosiect yr Enfys trwy Home-Start Cymru, yn cynnig cefnogaeth gyfrinachol a chymorth ymarferol am ddim i rieni plant ifanc ledled Cymru sy'n profi bywyd yn anodd yn y cyfnod yma. Mae Gwirfoddolwyr hyfforddedig Home-Start Cymru yn gweithio ochr yn ochr â theuluoedd sydd wedi blino a'u llethu gan straen bywyd teuluol, yn enwedig os nad oes ganddynt gefnogaeth teulu / ffrindiau pan fydd ei angen fwyaf. Yr unig feini faen prawf yw bod un plentyn o dan 11 oed. Gall Mrs Natalie Fairburn yn yr ysgol gynorthwyo teuluoedd i gysylltu â'r gwasanaeth. Yn yr un modd gall teuluoedd hunangyfeirio. Mae manylion cyswllt y gwasanaeth isod.

The Rainbow Project via Home-Start Cymru, offers free confidential support and practical help to parents of young children living across Wales who are going through a difficult time. Home-Start Cymru's trained Volunteers work alongside families who may feel exhausted and overwhelmed by the stresses of family life, particularly if they have little support from family/friends when they need it most. The only eligibility criteria is that one child is under the age of 11. Mrs Natalie Fairburn at school can assist families in contacting the service. Likewise families can self-refer. Contact details for the service are:

Donna Coultis

07595 371675

dcoultis@homestartcymru.org.uk

www.homestartcymru.org.uk

Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur

Yn anffodus, oherwydd rheoliadau Covid, ni fydd yn bosib cynnal Gŵyl Sgiliau B5 yn Ysgol Gyfun Ystalyfera eleni. Bydd gweithgareddau trosglwyddo yn cychwyn yn gynnar iawn yn nhymor yr Hydref. Yn yr un modd, ni fydd modd cynnal Mabolgampau'r Clwstwr na Gig y Siarter Iaith. Bydd y Gig yn cael ei chynnal yn rhithiol yn yr ysgolion cynradd. Bydd Diwrnod Pontio B6 i Ysgol Gyfun Ystalyfera yn cael ei chynnal ar Ddydd Mawrth, Gorffennaf 6^{ed}. Dylai disgyblion B6 gyrraedd yr ysgol fel arfer a bydd bws yn eu tywys i Ystalyfera erbyn 10:00yb a'u dychwelyd yn ôl i YGG Pontardawe erbyn 2:30yp. Cynhelir y diwrnod agored yn unol â Chanllawiau Covid Llywodraeth Cymru. Bydd y cyfarfodydd gyda rhieni yn rhithiol. Bydd rhieni yn derbyn gwybodaeth gan Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur yn agosach i'r digwyddiad.

Unfortunately, due to the Covid restrictions, the Y5 Skills Days in Ysgol Gyfun Ystalyfera cannot take place as planned this term. Transition activities will commence early in the autumn term. Likewise, Cluster Sports and the Language Charter Gig cannot take place. The Gig will be held virtually in the feeder primaries. The Y6 Transition Day to Ysgol Gyfun Ystalyfera will take place on Tuesday, July 6th. Pupils should arrive at school as usual and a bus will take them to Ystalyfera by 10:00am and return them to YGG Pontardawe by 2:30pm. The open day will be held in line with Welsh Government Covid Guidance. The meetings with parents this year will be virtual. Parents will receive information from Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur nearer the event.

Symptomau Covid-19 / Covid-19 Symptoms

Cofiwch bwysigrwydd fod rhieni yn gwirio nad yw eu plant yn dangos unrhyw symptomau cyn mynychu'r ysgol - tymheredd uchel, pyliau peswch cyson newydd a cholled neu newid i arogl neu flas. Os ydynt yn arddangos y symptomau yma, **ni ddylent fod yn yr ysgol ar unrhyw gyfrif a dylid trefnu prawf.** Yn yr un modd, os yw rhieni'n dangos symptomau ac yn debygol o fod yn trefnu prawf, peidiwch danfon y plant i'r ysgol.

www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe

yggpontardawe@npt.school

<https://twitter.com/YGGPontardawe>

Remember the importance of parents checking that their children are not showing any symptoms before attending - high temperature, constant new coughs and loss or a change in smell or taste. If they exhibit these symptoms, **they should not be in school under any circumstances and a test should be arranged.** Likewise, if parents are showing symptoms and are likely to be subject to testing, please do not send pupils to school.

Pwysig – Protocol Covid-19 / Important – Covid-19 Protocol

Os yw disgybl yn **derbyn canlyniad prawf positif** gofynnwn i rieni ddefnyddio'r protocol isod os gwelwch yn dda. E-bostiwch yr ysgol gyda'r canlynol (yggpontardawe@npt.school)

Pwnc : “Pwysig – Covid”

Neges : “Cysylltwch â mi ar y rhif canlynol ...”

Peidiwch gynnwys unrhyw wybodaeth arall ac fe gysylltwm â chi cyn gynted ag y bo modd.

*In the event of a **pupil testing positive** for Covid-19, please email the school with the following (yggpontardawe@npt.school)*

Subject: “Important - Covid”

Message: “Contact me on the following number ...”

Please do not include any other information and we will contact you as soon as we can.

Grant Mynediad GDD / PDG Access Grant

I'ch atgoffa, mae Grant Mynediad GDD LICC (Grant dillad ysgol) bellach wedi'i ymestyn i gynnwys grwpiau blwyddyn eraill a'r meini prawf wedi'u hymestyn i gynnwys gliniaduron neu dabledi. Mae cyllid o hyd at £125 ar gael ar gyfer pob dysgwr cymwys a £200 ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 7, gan gydnabod y costau uwch sy'n gysylltiedig â dechrau ysgol uwchradd. Gall mwyafrif y dysgwyr sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim wneud cais am y grant hwn os ydynt:

- Yn y dosbarth derbyn yn yr ysgol gynradd (Medi 2020)
- Ymuno â blynyddoedd ysgol 1, 3, 5, 7, 8, 9, 10 ac 11 (Medi 2020)
- Mewn ysgol arbennig, mewn uned anghenion arbennig neu uned gyfeirio disgyblion ac yn 4, 5, 7, 9, 11, 12, 13, 14 neu 15 mlwydd oed
- Mae cyllid ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar gael ym mhob blwyddyn ysgol.

Mae mwy o wybodaeth ar gael a gall rhieni wneud cais ar-lein wrth ddilyn y linc i

<https://www.npt.gov.uk/1316?lang=cy-gb>. Y dyddiad cau ar gyfer blwyddyn academaidd 20/21 yw **Mehefin 30^{ain} 2021**.

A reminder that the WG PDG Access Grant (School clothing Grant) has now been extended to include new year groups and the criteria extended to include laptops or tablets. Funding of up to £125 is available for each eligible learner and £200 for Year 7 learners, recognising the increased costs associated with starting secondary school. Most learners eligible for free school meals can apply for this grant if they have:

- *Entered reception class in primary school (September 2020)*
- *Entered school years 1, 3, 5, 7, 8, 9, 10 and 11 (September 2020)*
- *In a special school, special needs resource base or pupil referral unit and are aged 4, 5, 7, 9, 11, 12, 13, 14 or 15*
- *Funding for looked-after children is available in every school year.*

*More information is available and parents can apply online at <https://www.npt.gov.uk/1316>. The closing date for the 20/21 academic year is **30th June 2021***

Gwelliannau i'r adeilad / *Building Improvements*

Fel y gwyddoch, mae gwaith adeiladu yn parhau yn yr ysgol. Rhwng Covid a chymhlethdodau ychwanegol y safle, mae'r prosiect y tu ôl iddi yn sylweddol. Mae arwyddion calonogol yn awgrymu y dylai'r prosiect gael ei chwblhau erbyn diwedd Mehefin 2021. Gobeithiwn allu agor ac arddangos y dderbynfa newydd, yr ystafelloedd cyn-ysgol a'r meithrin sy'n sylweddol fwy, y ddau ddosbarth derbyn newydd a'r gampfa ar ei newydd wedd cyn ni dorri am wyliau'r haf. Diolch yn fawr i chi am eich amynedd dros gyfnod y gwaith adeiladu.

As you are aware, construction work is continuing at the school. Between Covid and additional complications at the site, the project has been delayed significantly. Indications are that the project should be completed by the end of June 2021. We hope to be in a position open the new reception area, the refitted and enlarged pre-school and nursery rooms, the two new reception classes and the refurbished gym prior to us closing for the summer holidays. Many thanks for your patience while the building work has taken place.

Diolch unwaith eto i chi i gyd am eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth tra peri argyfwng Covid. Er bod y newyddion yn galonogol tu hwnt, mae'n parhau yn amser anhygoel o anodd i bawb. Os ydych chi ein hangen ni, cysylltwch trwy e-bost yn yggpontardawe@npt.school.

I can once again thank you all for your continued support and understanding during the Covid crisis. Although the news is encouraging, it continues to be an incredibly difficult time for everyone. If you need us, please contact by email at yggpontardawe@npt.school.

Cofion gorau / *Best wishes*



Ceri Emanuel

Pennaeth / *Headteacher*

14.05.21

Trefniadau Gollwng a Chasglu / *Drop off and Collection times*

Dosbarthiadau / <i>Classes</i>	Amser Gollwng / <i>Drop off slot</i>	Amser Casglu / <i>Collection slot</i>
Mr Owen (B6) a Mr Lewis (B5)	8:30 - 8:40am	2:40 - 2:50pm
Mrs Hogarth (B3), Mrs Richards / Mrs A Shields (B3&4) a Miss M Davies (B4)	8:40 - 8:50am	2:50 - 3:00pm
Miss Lewis (B2), Mrs Saunders (B1&2) a Miss Stephanie Davies (B1)	8:50 - 9:00am	3:00 - 3:10pm
Mrs Jones Fowler (D&B1), Mrs Jones / Mrs Morgan (Derbyn)	9:00 - 9:10am	3:10 - 3:20pm
Mrs Laura Evans (Meithin Bore / <i>Morning Nursery</i>)	9:10 - 9:20am	11:20 - 11:30am
Mrs Laura Evans (Meithin Prynawn / <i>Afternoon Nursery</i>)	12:15 - 12:25pm	2:25 - 2:35pm

Dyddiadur 2020 - 2021 / 2020 - 2021 Diary

Nos Lun 17 ^{eg} a 24 ^{ain} o Fai Nos Fawrth 18 ^{fed} , a'r 25 ^{ain} o Fai <i>Monday 17th and 24th May</i> <i>Tuesday 18th and 25th May</i>	Nosweithiau rhieni (3:30yp i 5:30yp) <i>Parents Evenings (3:30 pm to 5:30pm)</i>
Wythnos yn cychwyn Llun, Mai 24 ^{ain} <i>Week commencing Monday, May 24th</i>	Mabolgampau Ysgol – os yw'r tywydd yn garedig <i>School Sports Week - weather permitting</i>
Dydd Gwener, Mai 28 ^{ain} <i>Friday, May 28th</i>	HMS <i>INSET</i>
Hanner Tymor Sulgwyn – Mai 31^{ain} i Fehefin 4^{ydd} <i>Half Term Whitsun – May 31st to June 4th</i>	
Dydd Gwener, Mehefin 25 ^{ain} <i>Friday, June 25th</i>	HMS <i>INSET</i>
Dydd Mawrth, Gorffennaf 6 ^{ed} <i>Tuesday, July 6th</i>	Diwrnod agored B6 yn Ysgol Gyfun Ystalyfera <i>Y6 Open Day in Ysgol Gyfun Ystalyfera</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 9 ^{fed} <i>Friday, July 9th</i>	B6 – Gig Siarter Iaith yn yr ysgol <i>Y6 – Language Charter Gig at school</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 16 ^{eg} <i>Friday, July 16th</i>	HMS <i>INSET</i>
Gwylau'r Haf – Cau i ddisgyblion dydd Iau, Gorffennaf 15 ^{fed} ac yn ail agor ar ddydd Gwener, Medi'r 3 ^{ydd} <i>Summer Holidays – School closes to pupils on Thursday, July 15th and re-opens on Friday, September 3rd</i>	
Dydd Iau, Medi'r 2 ^{ail} <i>Thursday, September 2nd</i>	HMS <i>INSET</i>